north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**15/03/2019**

**Teitl:** Cyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**Awdur:** Dilwyn Williams, Prif Weithredwr, Corff Atebol

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad hon yn darparu diweddariad cryno ar y broses a'r trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac i dderbyn cadarnhad o'r trefniadau ar gyfer y broses benodi.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

2.1 Bod cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("Bwrdd") yn cael ei drefnu i bwrpas cytuno ar restr fer o ymgeiswyr i'w gwahodd ar gyfer ystyriaeth bellach. Dewis arall posibl i hyn fodd bynnag fyddai i'r Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb i is-bwyllgor o unigolion i'w penodi ar gyfer cyflawni hyn.

2.2 Bod pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu Canolfan Asesu Broffesiynol. Byddai'r Ganolfan Asesu yn cael ei harwain gan asesydd allanol a ddefnyddir gan y Corff Atebol ar gyfer penodi i uwch swyddi. Bydd yr asesydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar berfformiad pob ymgeisydd.

2.3 Bod y cyfweliad ffurfiol gyda phob ymgeisydd ar y rhestr fer mewn cyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd i'w drefnu gydag adborth o'r Ganolfan Asesu i'w ddarparu yn y cyfarfod cyn gwneud y penodiad.

## 3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Mae aelodau'r Bwrdd eisoes wedi nodi eu bod, nid yn unig yn awyddus i wneud y penodiad allweddol hwn mor fuan ag y bo modd, ond hefyd i sicrhau bod y broses recriwtio a'r trefniadau yn rhai effeithiol a gwydn.

3.2 Gyda hyn mewn golwg, cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, y dylwn i, fel Prif Weithredwr y Corff Atebol ac mewn ymgynghoriad a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd, gymryd camau i weithredu er mwyn prysuro'r broses a chychwyn y broses recriwtio.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Mae llawer o waith wedi'i gyflawni yng nghyswllt paratoi i gychwyn y broses recriwtio ond mae oedi bychan cyn y gellir rhyddhau hysbyseb ar gyfer y swydd. Mae hyn yn bennaf yn sgil y gofyn i ymgynghori ar lefel cyflog ar gyfer y swydd hefo Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru.

4.2 Fy mwriad felly yw darparu diweddariad ar unrhyw faterion sy'n sefyll, yn ogystal a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cychwyn y broses recriwtio, yng nghyfarfod y Bwrdd ar yr 15 o Fawrth.

**5. Goblygiadau Ariannol**

Fel adroddwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd, bydd y gyllideb (eitem arall ar raglen y cyfarfod hwn) yn cynnwys darpariaeth addas ar gyfer ariannu swydd Cyfarwyddwr.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

**7. Goblygiadau Staffio**

**8. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

**9. Atodiad**

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

"Mae'r drefn benodi a argymhellir yn adlewyrchu'r trefniadau a ganiateir gan y statud ynglŷn â phrif swyddogion trefniadau ar y cyd."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

"Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol."